



Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



CYMRU IACHACH

EIN STRATEGAETH GWEITHLU AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

**Gofal Cymdeithasol Cymru –
Cynllun cyflawni 2021/2022**

CYMRU IACHACH – STRATEGAETH GWEITHLU AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU – CYNLLUN CYFLAWNI 2021 - 2022

2021-2022 yw'r flwyddyn weithredol lawn gyntaf ers lansio [Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#) gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) ym mis Hydref 2020 i gefnogi'r gwaith o weithredu Cymru Iachach. Croesawodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y strategaeth, a lansiwyd hanner ffordd drwy un o gyfnodau mwyaf heriol cenhedlaeth, ac a oedd yn profi ac yn ymestyn adnoddau a systemau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae hyn wedi'i gyplysu â newidiadau deddfwriaethol a gwleidyddol allweddol gyda chyflwyniad y Fframwaith Clinigol, y Trefniadau Diogelu newydd ar gyfer Amddiffyn Rhyddid, yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyn "Ailgydbwyso Gofal a Chymorth", etholiadau'r Senedd ddechrau Mai 2021 a'r [rhaglen lywodraethu](#) ddilynol, a'r [Fframwaith Adfer Gofal Cymdeithasol](#) a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Mae COVID-19 wedi gweld newid enfawr mewn sawl rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau yn cyflymu'r defnydd o dechnoleg ddigidol a thechnoleg dros y we i gefnogi ffyrdd newydd o weithio a chefnogi dinasyddion. Rydyn ni wedi gweld cymaint o ddewrder, tosturi a phroffesiynoldeb gan ein pobl dros y flwyddyn ddiwethaf, gydag ymroddiad llwyr i'r unigolion a'r teuluoedd maen nhw wedi bod yn gefn iddyn nhw. Mae pandemig Covid-19 yn sicr yn cael effaith barhaol ar y ddau sector, a bydd yn parhau i gael effaith am flynyddoedd i ddod. Mewn ymateb, mae angen i ni roi'r gweithlu a'r cyflogwyr cymorth sydd eu hangen ar waith, drwy weithredu'r ymrwymadau yn y strategaeth yn gyflym ac yn effeithlon.

Mae'r pandemig yn atgyfnerthu'r achos dros newid sy'n sail i'r strategaeth. Bydd y llinynnau euraidd sy'n ymwneud â lles, yr iaith Gymraeg a chynhwysiant yn rhedeg drwy bob un o'r themâu a'r camau gweithredu sy'n cael eu cryfhau ac yn sail i bopeth a wnawn.


Mae COVID-19 yn tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â pharch cydradd rhwng y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol a'r angen i amddiffyn diogelwch a llesiant ein pobl, yn enwedig y rheini sydd yn rheng flaen y gwaith o ddarparu gwasanaethau. Mae'n tynnu sylw at yr angen i ganolbwyntio fwy ar amrywiaeth ein gweithlu, a'r breguster ychwanegol y mae rhai pobl, yn enwedig ein cydweithwyr Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, wedi'i wynebu. Mae'n atgyfnerthu'r fantais o adeiladu ar ddull arwain tosturiol ar bob lefel, a'i ddatblygu ymhellach, gan feithrin diwylliant cynhwysol ac amrywiol, sy'n adlewyrchu ein cymunedau lleol, lle mae llesiant staff yn hollbwysig a lle mae pob unigolyn yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi fel rhan o frawdoliaeth broffesiynol maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Er mwyn sicrhau bod gweithredu strategaeth y gweithlu yn canolbwyntio ar gefnogi'r pandemig yn y tymor byr, fe wnaethom weithio gyda Addysg a Gwella Iechyd Cymru

i ddatblygu ein “Cynllun Diogelu’r Gaeaf” ym mis Medi a oedd yn adeiladu ar ein profiad o’r don gyntaf y gwnaethom adrodd arno ym mis [Mai 2021](#).

Rydym wedi canolbwyntio ar fanteisio ar gyfleoedd i gydweithio ar draws systemau iechyd a gofal cymdeithasol, mewn meysydd fel arweinyddiaeth dosturiol a llesiant y gweithlu. Byddwn yn parhau i ddatblygu uchelgais strategaeth y gweithlu, yng nghydestun ymateb ac adfer yn dilyn Covid-19 yn ystod 2021-22 a hefyd yn edrych ar ein cynlluniau tymor hwy, gan barhau i weithio’n agos gydag AaGIC, gan rannu dysgu ac edrych ar ddatblygu gweithgarwch ar y cyd lle gall hyn ychwanegu gwerth. Mae’r rhestr lawn o gamau gweithredu gofal cymdeithasol a’r rhai yr ydym yn symud ymlaen ar y cyd ag iechyd yn erbyn uchelgais strategaeth y gweithlu wedi’i chynnwys fel a ganlyn.



	CAM GWEITHREDU	Sut byddwn yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu hyn yn ystod 2021-22
		<ul style="list-style-type: none"> • Creu pecyn croeso safonol ar gyfer pob person cofrestredig newydd • Parhau i gefnogi'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar i sefydlu ei hun fel fforwm cenedlaethol amlsector ar gyfer sefydliadau sy'n helpu i ddatblygu a hyrwyddo gweithgareddau/camau gweithredu lleol, sy'n gwella llesiant mewn cymunedau ledled Cymru • Parhau i gefnogi'r sector i weithio'n ddwyieithog drwy dargedu adnoddau i gefnogi'r gweithlu nawr ac yn y dyfodol • Lansio cerdyn gweithiwr gofal newydd, gan symud i un ateb digidol a chreu partneriaeth â dau ddarparwr disgownt mawr i gynyddu'r manteision manwerthu sydd ar gael, gan sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'r cynnig sydd ar gael yn y GIG • Parhau i gyfrannu at Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Mae ei waith yn canolbwyntio ar wella amodau gwaith mewn gofal cymdeithasol ac mae ei gylch gwaith llawn ar gael yn https://gov.wales/social-care-fair-work-forum • Cynnal peilot ymgysylltu ar gyfer pob sector
 <p>Erbyn 2030, bydd iechyd a gofal</p>	<p><u>CAM GWEITHREDU 6</u> Sefydlu Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sy'n hyrwyddo pob rôl ac yn estyn allan i bob rhan o'r gymuned a'r gweithlu.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 7</u></p>	<p>Ar y cyd ag AaGIC, byddwn yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu ymhellach y cysylltiadau rhwng y Rhwydwaith Gyrfaoedd a'r cysylltiadau rhwng ymagweddau gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cynyddu ein cyrhaeddiad

	CAM GWEITHREDU	Sut byddwn yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu hyn yn ystod 2021-22
<p>cymdeithasol wedi'u sefydlu'n dda fel brand cryf y gellir ei adnabod a'r sector o ddewis ar gyfer ein gweithlu yn y dyfodol.</p>	<p>Adolygu a datblygu cynlluniau wedi'u targedu ar gyfer</p> <p>a) prinder sylweddol mewn grwpiau proffesiynol a galwedigaethol a meysydd sy'n anodd recriwtio iddyn nhw, gan gynnwys meddygaeth, gofal cartref, gwaith cymdeithasol a nyrsio (<i>sy'n gysylltiedig â cham gweithredu 31</i>)</p> <p>b) grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 8</u></p> <p>Gweithredu dull recriwtio dwyieithog sy'n seiliedig ar werthoedd modern ar gyfer yr holl staff ieuchy a gofal cymdeithasol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu rhwydwaith ar y cyd i rannu arferion da ac adnoddau i sbarduno gwelliant o ran recriwtio a chadw staff ar draws y sectorau <p>Bydd GCC yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Datblygu cynlluniau wedi'u targedu ar gyfer proffesiynau sy'n brin a meysydd sy'n anodd recriwtio iddyn nhw. • Parhau i hyrwyddo prentisiaethau fel dewis gyrfa hyfyw ar gyfer ymuno â'r sector ac aros ynddo • Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a Gyrfa Cymru, sefydliadau dyfarnu (City and Guilds a CBAC) i gryfhau'r cysylltiadau rhwng ceiswyr gwaith a gyrfaoedd ym maes gofal cymdeithasol • Datblygu a chyflwyno rhaglenni hyfforddi sy'n hyrwyddo adnoddau sy'n seiliedig ar werthoedd a dulliau o recriwtio a chadw staff. • Lansio adnoddau mewn ysgolion i hyrwyddo gyrfaoedd mewn gofal cymdeithasol • Parhau i gefnogi'r swyddi cysylltu gyrfaoedd gofal yn ariannol yn y 7 rhanbarth • Gwerthuso'r cyflwyniad i gynllun peilot y rhaglen gofal cymdeithasol a gwneud penderfyniadau ynghylch sut i ehangu a darparu mynediad ehangach • Gweithio gyda City and Guilds i gefnogi eu rhaglen pontio sgiliau a chyfeirio at wefan Gofalwn Cymru fel rhan o'u dull gweithredu

	CAM GWEITHREDU	Sut byddwn yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu hyn yn ystod 2021-22
		<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i ddatblygu gwefan Gofalwn Cymru gan gynnwys adnoddau a chefnogaeth benodol i gyflogwyr, gan gynnwys canolbwyntio ar y swyddi hynny sy'n anodd recriwtio iddynt, fel gweithwyr cymdeithasol a nyrsys ym maes gofal cymdeithasol. • Cefnogi ymhellach y gwaith o ddatblygu'r porth swyddi sy'n gwella profiad y defnyddiwr i gyflogwyr a cheiswyr gwaith • Parhau â'r ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a'r teledu • Datblygu ymgyrch benodol, mewn partneriaeth â chyflogwyr, i hyrwyddo'r Gwaith Cymdeithasol fel dewis gyrfa.
<div data-bbox="120 708 472 948" style="background-color: yellow; border: 2px solid black; padding: 5px; text-align: center;"> Modelau gwaith di-dor Seamless Working Models </div> <p>Erbyn 2030, modelau gweithlu amlbroffesiwn ac amlasiantaeth fydd y norm.</p>	<p><u>CAM GWEITHREDU 9</u> Datblygu cynllun gweithlu amlbroffesiwn i gefnogi'r gwaith o weithredu model newydd y gweithlu gofal sylfaenol a chymunedol (Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol).</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 10</u> Datblygu cynllun gweithlu amlbroffesiwn i gefnogi bod Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn cael ei weithredu.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 11</u> Trosi'r modelau gweithlu sy'n cael eu datblygu drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ganllaw arfer da ar gyfer gwaith integredig.</p>	<p>Ar y cyd ag AaGIC, byddwn yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda phartneriaid i ehangu'r hyfforddiant sydd ar gael i weithwyr iechyd mewn cartrefi gofal drwy rolau hwyluswyr addysg cartrefi gofal • Datblygu cynllun gweithlu i gefnogi 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl', gan ganolbwyntio ar rai blaenoriaethau cynnar sy'n ymwneud â CAMHS, seicoleg glinigol a gwasanaethau amenedigol • Bwrw ati gyda'r gwaith ar drefniadau amddiffyn rhyddid • Cyhoeddi gwerthusiad o raglen gynefino iechyd a gofal cymdeithasol beilot ar y cyd gan Hywel Dda, a rhannu'r gwersi a ddysgwyd <p>Bydd GCC yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi cynllun gweithlu ar gyfer y gweithlu gofal uniongyrchol • Cyfrannu at ddatblygu safonau cynefino ar gyfer gwirfoddolwyr

	CAM GWEITHREDU	Sut byddwn yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu hyn yn ystod 2021-22
	<p><u>CAM GWEITHREDU 12</u> Datblygu fframwaith cymhwysedd a galluoedd clir ar gyfer sgiliau estynedig ac ymarfer uwch ar draws grwpiau proffesiynol.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 13</u> Gweithredu rhaglen gynefino gyffredin sy'n seiliedig ar werthoedd ar gyfer ein holl weithlu sy'n darparu iechyd a gofal cymdeithasol mewn lleoliadau sylfaenol a chymunedol.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 14</u> Gweithio gyda phartneriaid i gysoni trefniadau llywodraethu, rheoleiddio a chofrestru er mwyn hwyluso gwaith amlbroffesiwn.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi cynllun gweithlu ar gyfer y proffesiwn gwaith cymdeithasol gan gynnwys fframwaith ôl-gymhwyso newydd
<p>Adeiladu Gweithlu sy'n barod yn ddigidol Building a Digitally Ready Workforce</p> <p>Erbyn 2030, bydd galluoedd digidol a thechnolegol y</p>	<p><u>CAM GWEITHREDU 15</u></p> <p>Gweithredu "Raglen Gweithlu sy'n Ddigidol Barod" sy'n canolbwyntio ar wella llythrennedd digidol a hyder y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ehangach yng Nghymru.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 16</u></p>	<p>Ar y cyd ag AaGIC, byddwn yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lansio hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau (IPC) digidol, diwygiedig <p>Bydd GCC yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi'r gwaith o ddatblygu mwy o allu digidol ar draws ein gweithlu • Parhau i ddatblygu adnoddau dysgu sydd wedi'u galluogi'n ddigidol



	CAM GWEITHREDU	Sut byddwn yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu hyn yn ystod 2021-22
<p>gweithlu wedi'u datblygu'n dda ac yn cael eu defnyddio'n eang i wneud y gorau o'r ffordd rydym yn gweithio, i'n helpu i ddarparu'r gofal gorau posibl i bobl.</p>	<p>Comisiynu agweddau digidol cyson fel rhan o'r holl gwricwla israddedig ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 17</u> Gweithredu gofyniad i bob rhaglen a phrosiect trawsnewid digidol gynnwys cynllun datblygu sefydliadol clir.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Lansio llwyfan dysgu digidol a phrofi cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant unwaith i Gymru gan gynnwys diogelu, heintiau, atal a rheoli, egwyddorion a gwerthoedd • Monitro'r gwaith o gyflawni blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer dulliau digidol yng ngrant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru 21/22 • Ymgymryd â gwaith cwmpasu i ddeall sgiliau, galluoedd a chysylltiadau'r rheini sy'n defnyddio, yn darparu ac yn ymchwilio i ofal a chymorth yng Nghymru
<p>Erbyn 2030, bydd y buddsoddiad mewn addysg a dysgu ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn darparu'r sgiliau</p>	<p><u>CAM GWEITHREDU 18</u> Gweithio gyda darparwyr addysg i sicrhau bod addysg yn diwallu anghenion y system iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn cynnwys rhaglenni a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 19</u> Gweithio gyda darparwyr addysg i gefnogi'r gweithlu i ddatblygu a/neu wella sgiliau Cymraeg.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 20</u> Mewn partneriaeth â Sefydliadau Addysg Uwch, gweithredu newidiadau i gynnwys cwricwla a hyblygrwydd y ddarpariaeth ar gyfer rhaglenni israddedig i ddiwallu</p>	<p>Ar y cyd ag AaGIC, byddwn yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda City and Guilds i rannu gwybodaeth a data am effaith Covid-19 ar ddarparu a chyflawni cymwysterau galwedigaethol <p>Bydd GCC yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gyda phartneriaid i wella cyfleoedd i ddysgwyr gael addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. • Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gael dysgu'n seiliedig ar waith a phrentisiaethau fel dewis gyrfa ymarferol i ymuno â'r sector ac aros yn y sector • Ehangu mynediad at gyrhaeddiad, a lleihau cyrhaeddiad gwahaniaethol mewn rhaglenni addysg iechyd a gofal

	CAM GWEITHREDU	Sut byddwn yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu hyn yn ystod 2021-22
<p>a'r galluoedd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl yng Nghymru yn y dyfodol.</p>	<p>anghenion a dulliau darparu yn y dyfodol, gan gynnwys addysg ryngbroffesiynol, gofynion lleoliadau ar gyfer cymwyseddau cyffredin, a gofynion iaith.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 21</u> Parhau i fuddsoddi mewn cynyddu nifer y gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cael eu hyfforddi yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar werth.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 22</u> Ehangu mynediad i yrfaedd iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddatblygu'r model dysgu seiliedig ar waith.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 23</u> Datblygu model cyllido a chomisiynu clir a theg ar gyfer addysg iechyd a gofal cymdeithasol gan gynnwys addysg israddedig, prentisiaethau ac addysg alwedigaethol.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 24</u> Datblygu strategaeth glir ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar draws grwpiau proffesiynol a galwedigaethol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu rhaglen ddysgu i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid • Monitro'r nifer sy'n cofrestru ar gyfer cymwysterau Lefel 2 a 3 newydd a sut cânt eu cyflwyno, a chefnogi'r gwaith o weithredu cymwysterau Lefelau 4 a 5 newydd. • Cefnogi'r gwaith o weithredu a chofrestru ar gyfer fframweithiau prentisiaeth Lefel 4 a 5 diwygiedig • Cynnal a datblygu Rhwydwaith Mentoriaid Cymru Gyfan ar gyfer ymarfer sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau • Dadansoddi, adrodd a gweithredu ar effaith Covid-19 ar ddysgwyr nad ydynt wedi gallu cwblhau asesiadau/lleoliadau • Cyflawni cysondeb cenedlaethol gyda hyfforddiant a dysgu Diogelu • Ar ôl llofnodi'r canllawiau ymarfer cyfyngol, bydd adnodd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei ddiwygio a bydd y wefan yn cael ei diweddarau • Gweithio gyda City and Guilds i rannu gwybodaeth am effaith Covid-19 ar ddarparu a chyflawni cymwysterau galwedigaethol • Cwblhau adolygiad o ffrydiau cyllido sy'n cefnogi datblygu'r gweithlu, gan gynnwys grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru • Darparu cefnogaeth barhaus i weithwyr cymdeithasol sy'n fyfyrwyr, drwy hyfforddiant cymhwysio i gyflogaeth, gan gynnwys adolygu'r trefniadau cyllido sy'n cefnogi hyfforddiant cymhwysio ac ôl-gymhwysio

	CAM GWEITHREDU	Sut byddwn yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu hyn yn ystod 2021-22
		<ul style="list-style-type: none"> • Cefnogi'r gwaith o gyflwyno fframwaith cynefino i reolwyr gofal cymdeithasol • Cefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau ar gyfer dyfarniad Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol • Datblygu fframwaith cymhwysedd ar gyfer gweithwyr Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth • Cefnogi'r gwaith o ddatblygu fframwaith cymhwysedd gweithwyr eiriolaeth • Cefnogi'r gwaith o ddatblygu dyfarniad diwygiedig ar egwyddorion a gwerthoedd i gefnogi'r broses o gofrestru gweithwyr gofal
<p>Arweinyddiaeth a Dilyniant Leadership and Succession</p> <p>Erbyn 2030, bydd arweinwyr yn y system iechyd a gofal cymdeithasol yn arwain â thosturiaeth ac ar y cyd.</p>	<p><u>CAM GWEITHREDU 25</u> Datblygu strategaeth i fframio dull cyson o arwain tosturiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 26</u> Sefydlu ystod hygyrch o adnoddau a rhaglenni datblygu arweinyddiaeth ar gyfer unigolion a sefydliadau.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 27</u> Datblygu ffrwd rheoli talent ar gyfer rolau arwain</p>	<p>Ar y cyd ag AaGIC, byddwn yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Lansio Egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn galluogi diffiniad, dealltwriaeth ac iaith ar y cyd sy'n ymwneud â sut mae arweinyddiaeth dosturiol yn edrych ar draws y ddau sector yng Nghymru, a datblygu cynnwys ymgysylltu ar-lein ar gyfer arweinyddiaeth dosturiol i roi sylw i egwyddorion a themâu unigol. <p>Bydd GCC yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parhau i fuddsoddi mewn datblygu arweinwyr tosturiol ar draws iechyd a gofal cymdeithasol • Dylunio cynnwys tudalen we ar gyfer tudalen 'arweinyddiaeth dosturiol' ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru

	CAM GWEITHREDU	Sut byddwn yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu hyn yn ystod 2021-22
		<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni arweinyddiaeth penodol ar gyfer penaethiaid gwasanaeth proffesiynol gofal cymdeithasol a chyfarwyddwyr statudol, gan gynnwys cymwysterau TMDP ac MMDP, gyda rhaglenni datblygu pwrpasol ar waith ar gyfer Cyfarwyddwyr a Chyfarwyddwyr Cynorthwyol Gwasanaethau a'r Gweithlu. • Cefnogi rhwydweithiau cymheiriaid ar draws rheolwyr cofrestredig ym maes gofal cymdeithasol mewn gwasanaethau preifat, gwirfoddol a chyhoeddus i wella llesiant a helpu i ddiogelu gwytnwch • Parhau i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo a gweithredu cymwysterau Lefel 4 a Lefel 5 newydd, gan gynnwys y llwybrau prentisiaeth cysylltiedig • Parhau i ddarparu rôl arwain o ran hyrwyddo gwaith dwyieithog • Cyfrannu at yr adolygiad o gynllun gweithredu Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru, ac ymateb iddo, drwy ddatblygu cynllun gweithredu diwygiedig ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru
<div data-bbox="107 1046 465 1295" data-label="Image"> </div> <p data-bbox="203 1299 459 1362">Erbyn 2030, bydd gennym weithlu</p>	<p data-bbox="488 1075 833 1107"><u>CAM GWEITHREDU 28</u> Creu canolfan ragoriaeth ar gyfer gwybodaeth am y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.</p> <p data-bbox="488 1260 833 1292"><u>CAM GWEITHREDU 29</u> Meithrin gallu a chapasiti o ran cynllunio a datblygu'r gweithlu ar draws iechyd a gofal</p>	<p data-bbox="1128 1075 1594 1107">Ar y cyd ag AaGIC, byddwn yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddi cynllun y gweithlu ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl <p data-bbox="1128 1241 1339 1273">Bydd GCC yn</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu at ddatblygu safon gynefino ar gyfer gwirfoddolwyr

	CAM GWEITHREDU	Sut byddwn yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu hyn yn ystod 2021-22
<p>cynaliadwy mewn niferoedd digonol i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ein poblogaeth.</p>	<p>cymdeithasol, wedi'i ategu gan fethodoleg safonol.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 30</u> Datblygu canllawiau cynllunio gweithlu ar gyfer adnabod a datblygu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 31</u> Datblygu cynlluniau gweithlu ar gyfer grwpiau proffesiynol a galwedigaethol allweddol, yn y lle cyntaf; Nyrsio, Gofal Cartref, Gwaith Cymdeithasol, Meddygaeth.</p> <p><u>CAM GWEITHREDU 32</u> Comisiynu rhaglen waith i ddeall cyfraniad gwirfoddolwyr a gofalwyr i lywio cynlluniau gweithlu'r dyfodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Lansio'r model diwygiedig o gasglu data am y gweithlu gan ddefnyddio'r dangosfwrdd cyflogwyr sydd newydd gael ei greu • Parhau i addasu dulliau casglu data i sicrhau bod data cadarn ar gael, gan gynnwys gwella'r broses adrodd ar ddata sy'n ymwneud ag iaith ac ethnigrwydd • Parhau i alluogi'r gweithlu cartrefi gofal i gofrestru'n wirfoddol • Cyhoeddi cynlluniau'r gweithlu ar gyfer y gweithlu gofal uniongyrchol a'r proffesiwn gwaith cymdeithasol • Cadw golwg ar feysydd sy'n peri pryder er mwyn deall proffil y gweithlu'n well er mwyn darparu gwybodaeth i gefnogi penderfyniadau effeithiol e.e. proffilio nyrsys mewn gofal cymdeithasol, cyfraddau trosiant ar gyfer meysydd allweddol fel gwaith cymdeithasol a gofal cartref. • Cynnal adolygiad cwmpasu o'r dulliau o gynllunio'r gweithlu ar draws y sector a darparu argymhellion ar gyfer datblygu'r swyddogaeth hon • Cynnal adolygiad llawn o grant Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru

I GLOI

Wrth i ni edrych tuag at 2021 – 2022, mae'n anochel y bydd yn arwain at ragor o newid a her wrth i ni weld yr adferiad parhaus ar ôl y pandemig, gan gynnwys parhau â'r rhaglen frechu, cael gwared ar gyfyngiadau symud a dychwelyd at systemau gweithredu mwy arferol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd cyflawni uchelgais y strategaeth 10 mlynedd yn parhau i ofyn am gydweithio rhagorol ac ymroddedig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, rhwng sefydliadau lleol a chyrrff cenedlaethol sy'n gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol. Mae'r gwaith a wnaed ers lansio'r strategaeth, gan gysylltu'r gwaith yn glir â'r saith thema allweddol a'r llinynnau aur sy'n sail i'r strategaeth, wedi caniatáu momentwm y gellid adeiladu arno yn y blynyddoedd dilynol, yn unol â'n dyheadau a'n nodau tymor hwy, sy'n ein rhoi mewn sefyllfa dda i gwrdd â'r heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil 2021-2022.

Rydyn ni wedi adolygu'r strategaeth yng ngoleuni Covid-19 ac rydyn ni'n credu bod yr uchelgeisiau a'r camau gweithredu yn dal yn berthnasol. Mae'r cynllun hwn yn cynrychioli'r meysydd hynny y mae angen i ni eu hehangu er mwyn ymateb i heriau mawr iawn i'r sectorau. Yn ystod 2021-22 byddwn yn ymdrechu i ddatblygu'r cynlluniau gweithredu a'r llywodraethu tymor hwy sy'n ofynnol i wireddu'r uchelgais 10 mlynedd.